**Newyddion gan Cymwysterau Cymru – Mehefin 2019**

---

**News from Qualifications Wales – June 2019**

# the slate / y llechen

## Your thoughts on qualifications and the new curriculum

We've been out and about this term, gathering initial views on how the new curriculum could affect qualifications. This includes taking part in regional engagement events for schools, where we're running seminars with school leaders to discuss what kinds of changes could help to introduce the new curriculum successfully.

We're also speaking to a range of other stakeholders, including employers, universities, FE colleges and awarding bodies to help us to develop proposals for consultation in the autumn term. We're especially keen to hear learners' views, so if you have any ideas or suggestions about opportunities for us to engage, please email curriculum@qualificationswales.org  For more information about our approach, and to find out how you can have your say on the future of qualifications in Wales, please visit our website.



---

## Construction and the Built Environment: explaining the new qualifications

Qualifications in Construction and the Built Environment are changing in 2021. We've produced a webinar, supported by CITB, to explain the benefits the new qualifications will offer to learners in Wales. You can download the webinar **here.** If you'd like to find out any more about what's happening, please email us at **development@qualificationswales.org**

## What do GCSE teachers think of Non-Examined Assessment?

We're currently gathering GCSE teachers' perceptions and experiences of Non-Examination Assessment (NEA) in the following subjects:

- **Art**
- **Computer Science**
- **Drama**
- **English Language**
- **English Literature**
- **Geography**
- **PE**
- **Science (Double Award)**
- **Welsh Language (first language only)**
- **Welsh Literature**

If you teach at a maintained secondary school, Pupil Referral Unit (PRU), further education (FE) college or independent school, and you deliver the current WJEC GCSE specification in one or more of these subjects, we'd love to hear your views. Please click **here** to access the survey, which will be open until mid-July 2019.



## Have Your Say survey – two weeks left

Are you involved with this year's summer exams? If so, it's not too late to let us know what you think about them - we're keen to hear from learners, teachers, lecturers, and anyone else with an interest in the summer exam series. To give us your feedback, all you need to do is fill in a short online questionnaire; you can access it **here**.



## Come and join us

We're advertising for Office Assistants, Qualifications Managers and a Senior Qualifications Manager role. Fancy working for us? You can find more details on our **website.**

---

# Eich barn chi am gymwysterau a'r cwricwlwm newydd

Rydym wedi bod wrthi'r tymor hwn yn casglu safbwyntiau cychwynnol ar sut y gallai'r cwricwlwm newydd effeithio ar gymwysterau. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau ymgysylltu rhanbarthol i ysgolion, lle rydym yn cynnal seminarau gydag arweinwyr ysgolion i drafod pa fath o newidiadau y gellid eu gwneud er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus.

Rydym hefyd mewn cysylltiad ag amrywiaeth o randdeiliaid eraill, gan gynnwys cyflogwyr, prifysgolion, colegau addysg bellach a

chyrff dyfarnu er mwyn ein helpu i lunio cynigion i ymgynghori arnynt yn ystod tymor yr hydref. Rydym yn awyddus iawn i glywed barn dysgwyr, felly os oes gennych unrhyw syniadau neu awgrymiadau am gyfleoedd i ni ymgysylltu, e-bostiwch cwricwlwm@cymwysteraucymru.org. Am fwy o wybodaeth am ein dull gweithredu, ac i ddod o hyd i sut y gallwch ddweud eich dweud am ddyfodol cymwysterau yng Nghymru, ewch i'n **gwefan**.



## Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig: esbonio'r cymwysterau newydd

Mae cymwysterau mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig yn newid yn 2021. Rydym wedi cynhyrchu gweminar, gyda chefnogaeth CITB, i esbonio'r manteision y bydd y cymwysterau newydd yn eu cynnig i ddysgwyr yng Nghymru. Gallwch lawrlwytho'r gweminar **yma**. Os hoffech ddysgu mwy am yr hyn sy'n diwgydd, e-bostiwch ni yn **datblygu@cymwysteraucymru.org**

## Beth mae athrawon yn ei feddwl am Asesiadau diarholiad?

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn casglu canfyddiadau athrawon TGAU a'u profiadau o asesiadau diarholiad (NEA) yn y pynciau canlynol:

- **Celf**
- **Cyfrifiadureg**
- **Drama**
- **Saesneg Iaith**
- **Llenyddiaeth Saesneg**
- **Daearyddiaeth**
- **Addysg Gorfforol**
- **Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)**
- **Cymraeg Iaith (iaith gyntaf yn unig)**
- **Llenyddiaeth Gymraeg**

Os ydych yn addysgu mewn ysgol uwchradd a gynhelir, Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD), coleg addysg bellach neu ysgol annibynnol, ac yn cyflwyno manyleb TGAU **cyfredol CBAC** mewn un neu fwy o'r pynciau uchod, hoffem glywed eich barn. Cliciwch **yma** i weld yr arolwg a fydd ar agor hyd at ganol mis Gorffennaf 2019.



## Arolwg Dweud Eich Dweud - pythefnos ar ôl

Ydych chi yn ymwneud ag arholiadau'r haf eleni? Os ydych chi, nid yw hi'n rhy hwyr i ddweud eich barn amdanynt – rydym yn awyddus i glywed gan ddysgwyr, athrawon, darlithwyr, ac unrhyw un arall sydd â diddordeb yng nghyfres arholiadau'r haf. Yr oll sydd angen i chi ei wneud i roi adborth yw llenwi holiadur byr ar-lein; gallwch ddod o hyd iddo **yma**.



## Dewch i ymuno â ni

Rydym yn hysbysebu ar gyfer Cynorthwywyr Swyddfa, Rheolwyr Cymwysterau a rôl Uwch-reolwr Cymwysterau. Hoffech chi weithio i ni? Gallwch ddod o hyd i ragor o fanylion ar ein **gwefan.**

To subscribe to our mailing list for the Slate, please click **here.**

---

I danysgrifio i'n rhestr bost ar gyfer Y Llechen, cliciwch **yma.**

**Y Llechen: cylchlythyr Cymwysterau Cymru i'r sector addysg**
**The Slate: Qualifications Wales's monthly newsletter for the education sector**

Gallwch chi ein dilyn ar gyfryngau cymdeithasol i weld y newyddion diweddaraf am ein gwaith:
You can follow us on social media for the latest news on our work:

*Copyright © 2019 Qualifications Wales All rights reserved.*

**Contact us:**
comms@qualificationswales.org